

Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 20fed o Chwefror 2019

LLEOLIAD EGLWYS Sant Pedr Penrhos am 7.00pm.

Agenda

Presennol

Ymddiheuriadau

Cod Ymddygiad

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 30-01-2019

Materion yn codi o'r cofnodion

Adroddiad Ariannol

Ceisiadau Nawdd

Cym Hanes Dyffryn Ogwen

Grwp Arlunio Glasinfryn

Grwp Yoga Glasinfryn

Taliadau angen sylw

Cyflog	Mis 11	£443.00
HMRC	Mis 11	£110.80
Eglwys St Pedr	Defnydd o'r Eglwys i gyfarfodydd	£60.00
Aelodaeth Unllais	Aelodaeth	£394.00
Anghenion Swyddfa Gwynedd	Dyddiadur Stamps a Amlenni	£38.70

Traelia Cynghorwyr

Derbynebion

Pritchard Llanberis £165 Claddu JRS Engravings £35 gosod carreg
fedd a Cyngor Gwynedd £251.73 Ad-daliad NDR
Cyfanswm o £451.73

I'w trafod hefyd

Damwain Giat y Fynwent

Tarmacio Llwybrau y Fynwent

Polisiau

Diweddariad Prosiect Ysgol Y Faenol - os oes unrhyw ddiweddariad

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid nos Fercher 30ain o Ionawr 2019
Yn Eglwys Sant Pedr Penrhos, am 7.00pm.

Presennol Cyng L James, D Jones-Morris a D W Jones

Ymddiheuriadau Cyng, C. E. Hughes - J. Pierce a B Jones

Cadeirwyd gan Cyng L James

Cod Ymddygiad Cwblhaodd Cyng D W Jones ffurflen datgan diddordeb gan iddi fod yn warden yr eglwys/adeliad rydym yn ei logi

Cofnodion Cyfarfod diwethaf 28-11-2018

Cynnigwyd eu bod yn Gofnod cywir gan Cyng D Jones-Morris ag eilwyd gan Cyng D W Jones

Adroddiad Ariannol Dosbarthwyd mantolen ariannol am Mis Rhagfyr a Ionawr oedd yn dangos mae £37,871.18 ddylai fod yn y cyfrif ddiwedd busnes heddiw Dosbarthwyd mantolen banc yn dangos balans o £39,399.98 yn y banc am fod 4 sic cyfanswm o £1528.80 heb ei chyflwyno. Dim ad-daliad wedi dod o'r TAW nag ad-daliad NDR o Cyngor Gwynedd **Clerc i gysylltu**

Dosbarthwyd mantolen oedd yn amcangyfrif faint oedd yn debygol fyddai ein costau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yma

Cytunwyd yn unol a phenderfyniad y Cyngor yn ol yn Mis Hydref i beidio adnewyddu prydles y Swyddfa ein bod yn neilltuo'r arbedion o hynny ar gyfer lleihau y benthychiad fyddai ei angen tuag at adeiladu y Ganolfan Gymunedol newydd ar safle Ysgol Y Faenol

Argymhellwyd agor Cyfrif banc arall i drosglwyddo yr arbedion iddo ar ddiwedd y flwyddyn ariannol **Clerc i drefnu**

Archwylwyr Allannol Adroddwyd ein bod bellach wedi cael cadarnhad fod BDO wedi cwblhau ei archwiliad a trafodwyd eu sylwadau. Manylwyd ar eu sylw fod ein Cofrestr Asedau Sefydlog angen ei adolygu i ddangos eu lleoliad, pryd prynwyd nhw a'i prisiau

Ceisiadau Nawdd Ceisiadau am arian wedi dod ymlaen ond yr un yn dilyn a patrwm Ceisiada arferol.

Mudiad Ffermwyr Ifanc Cais oedd hwn i ymrwymo fel Cyfeillion i'r mudiad **£100.00** y Flwyddyn neu talu'n fisol. **Nid oedd ymrwymo i rhywbeth blynyddol di-ddiwedd yn tar deuddeg rhywsut ond byddai posib ystyried cais gan glwb fyddai'n gwasanaethu ieuencid yr ardal Clerc i gysylltu nol**

Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Tenovus Llythyr yn hytrach na cais oedd hwn wedi ei anfon yn cyfeirio am i ni ystyried gwneud cyfraniad ariannol iddynt yn amlinnellu eu gwasanaeth

Cytunwyd i'r Clerc anfon at Ymddiriedolaeth Gofalwyr fel wnaethpwyd i Clinig Abbey Road i gwblhau ein ffurflen gais am arian ynghyd a mantolen ariannol

Theatr Bara Caws Wedi anfon mantolen ariannol gyfredol ond argymhell di-ystyru eu cais nhw a Tenovus

<u>Cytunwyd talu a ganlyn</u>	Cyflog	Mis 9 Rhagfyr a Mis 10 Ionawr	£443.00 x 2
	HMRC	Mis 9 a 10	£110.80 x 2
	Gamlins	Gwaith Canolfan Penrhos	£945.00 + TAW
			£1,134.00

Talu M Williams am glirio a diogelu safle giat y fynwent nol yn HYdref 2018

Traelia Cynghorwyr trafodwyd yn unol a rheoliadau ein bod wedi cyllido £1800 ar gyfer traelia Cynghorwyr a bod bellach angen edrych tuag at cwblhau ffurflenni os oedd cais i dderbyn neu dewis i wrthod gan y Cynghorwyr unigol

Prisio Asedau

Un o'r petha mae'r BDO wedi gyfeirio ato ydi i brisio ein asedau sefydlog ag i wneud hynny'n yn briodol bod angen Priswyr Proffesiynol Clerc i gysylltu a Cwmni Dafydd Hardy

I'w trafod hefyd

Damwain Giat y Fynwent - Fawr ddim i'w adrodd ymhellach ond y Cwmni Ysw wedi anfon Loss Adjuster i asesu os oedd difrod amgylcheddol

Cytuno fod rhywfaint o ddifrod amgylcheddol ond dim byd difrifol na allai Glanhawyr Diwydianol ei ddatrys. Dim ymateb gan yr Heddlu

Amcanbriso tarmacio Llwybrau y Fynwent -

Eric Humphries wedi rhoi amcanbris o £6640 = Taw sef cyfanswm o £7968 onf dim son am unrhyw fath o kerb

Thomas Construction wedi rhoi pris o £7800 +Taw a kerb coedyn o £4150 +TAW cyfanswm o £11950 +TAW = £14340.00

James Cyf wedi bod ond heb dderbyn yr amcanbris 30/01/2019

Gofyn i Eric Humphries ddod yn ol hefo pris kerbio hefyd i allu cymharu a gofyn i'r Clerc holi ynglyn a spec at gyfer y gwaith

Yn dilyn mynychu Noson agored i weld Cynlluniau Ysgol y Faenol /Canolfan Penrhos daeth cais yn holi am ddau neu dri person i eistedd o amgylch y bwrdd gyda Geraint Owen Rheolwr Datblygu Eiddo Cyngor Gwynedd i ddechrau 'rhewi' cynllun yr ochr gymunedol

Awgrymodd Cadeirydd y Cyngor Cyng C E Hughes y byddai'n fwy priodol i Gynghorydd o Ward Faenol fod ynglwm a hyn gan gynnig Cyng Dafydd Jones Morris a'r ddau Gynghorydd sy'n cynrychioli y Cyngor Hwn ar Bwyllgor y Neuadd Cyng T Anwyl Williams ag ar Lywodraethwyr Ysgol Y Faenol Cyng L James